Dechrau Da
Bookstart
BookTrust Cymru




# Nodiadau i'r Arweinydd

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Strwythur a awgrymir i’r gweithdy

Mae strwythur a’ch ffordd o gyflwyno sesiynau gweithdai Dechrau Da yn hyblyg. Mae’r sesiynau a ganlyn yn cymryd tua 2 awr i gyd.

Gallwch chi ddod o hyd i ddeunydd darllen, ymchwil a gwybodaeth ychwanegol yn yr adran ‘Adnoddau’.

- Cyflwyniad i BookTrust Cymru a Dechrau Da.
- Manteision rhannu darllen yn gynnar.
- Pecynnau Dechrau Da a negeseuon wrth wneud rhodd.
- Cydweithio.
- Cwis (Kahoot sy’n gwesteio’r rhain).
- Gwerthuso.

A fyddech cystal â defnyddio’r cyflwyniad Powerpoint ategol a phecynnau sampl Dechrau Da Babi a Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno’ch gweithdai.



**Nod y cwrs hwn ydy:**

Rhoi gwybodaeth i fyfyriwr-ymwelwyr iechyd am raglen Dechrau Da a’r cynnwys yn y pecynnau, a rhoi canllawiau ar sut i gynnwys gwneud rhodd o becynnau Dechrau Da yn eu harfer.

Erbyn diwedd y gweithdy dylai myfyrwyr allu:

- adnabod rôl darllen cynnar yn natblygiad plentyn a gallu esbonio hyn i rieni/gofalwyr mewn termau syml
- deall rôl rhaglen Dechrau Da mewn sefydlu trefn fuddiol i fabis, plant a theuluoedd/gofalwyr
- esbonio cynnwys pecynnau Dechrau Da Babi a Blynyddoedd Cynnar
- gwneud rhodd o becynnau Dechrau Da Babi a Blynyddoedd Cynnar yn hyderus, gan gynnwys rhoi cyngor ymarferol ar sut i rannu llyfrau â babis a phlantos bach, pwysigrwydd straeon a rhigymau a manteision rhannu darllen
- defnyddio pecynnau Dechrau Da yn ystod sesiynau archwilio datblygiad/twf
- deall manteision sesiynau amser rhigwm/amser stori a rôl y Gwasanaeth Llyfrgell yn eu cymuned, a gallu cyfeirio rhieni a gofalwyr at adnoddau a digwyddiadau sy’n digwydd yn agos atyn nhw.

Rhan 1

# Yn cyflwyno'r BookTrust, Dechrau Da a darllen cynnar

Yn para: 15 munud

Nod yr adran hon ydy cyflwyno'r BookTrust a Dechrau Da a chael y myfyrwyr i gysylltu Dechrau Da â'u profiadau cynnar nhw eu hunain o ddarllen.





1. Defnyddiwch sleidiau [**PowerPoint 1–4**] i gyflwyno'r BookTrust a Dechrau Da ac i gyflwyno'r sesiwn.
2. Gweithgaredd paratoi:

- rhannwch eich grŵp yn barau/grwpiau bach a gofyn i'r grwpiau drafod pa straeon a rhigymau roedden nhw'n eu hoffi pan yn blant
- beth ydy eu hatgofion cyntaf nhw o ddarllen?
- os oes ganddyn nhw blant, ydyn nhw wedi cyflwyno'u plant eu hunain i'w hoff rigymau a'u hoff lyfrau?
- sut deimlad ydy cael rhywun yn darllen ichi/yn darllen i blentyn?
- casglwch y pwyntiau trafod hyn
- sylwch – efallai nad ydy pob myfyriwr wedi cael profiadau positif o ddarllen yn ystod eu plentyndod. Mae'r pwyntiau trafod hyn yn werthfawr iawn hefyd, os ydy'r myfyrwyr yn dymuno rhannu eu profiadau â'r grŵp.

Rhan 2

# Manteision rhannu darllen yn gynnar – Trafodaeth

Yn para: 15 munud

Nod yr adran ydy helpu myfyrwyr i ddeall manteision rhannu darllen yn gynnar.



1. Defnyddiwch PowerPoint **Sleid 5**.
2. **Pam ei bod hi'n bwysig rhannu darllen yn gynnar?**

Rhannwch eich grŵp yn 4 tîm i drafod y meysydd datblygiad a ganlyn:

- Cymdeithasol-emosiynol/Gwybyddol/Ieithyddol/Corfforol
- casglwch bwyntiau trafod; dylai fod yna lawer iawn i'w drafod yma
- casglwch y sylwadau ynghyd gan ofyn i bob grŵp gyflwyno hyd at 3 o fanteision rhannu darllen yn gynnar
- defnyddiwch y tabl isod i ysgogi trafodaeth ychwanegol
- gallwch chi ddod o hyd i ymchwil ategol yn y ddogfen 'Adnoddau ychwanegol'



# Rhan 2

# Manteision rhannu darllen yn gynnar

I gael rhagor o wybodaeth ac ymchwil fanwl gwelwch yr adran adnoddau ychwanegol.

## Datblygiad cymdeithasol-emosiynol

Mae rhannu darllen yn gynnar yn cefnogi datblygiad plentyn trwy ddarparu cyfleoedd i feithrin perthynas agos. Mae babis yn hoff iawn o gael eu dal yn agos a chlywed llais rhiant neu ofalwr.

Mae bod â threfn bob dydd a rhythm i'r diwrnod yn gallu helpu plant i fagu hyder ac annibyniaeth.

Os yw rhiant yn edrych fel pe bai'n ei chael hi'n anodd cael trefn bob dydd, mae'r pecyn Dechrau Da yn cynnig cyfle i ddechrau sgwrs am gyflwyno digwyddiadau rheolaidd i ddiwrnod eu babi.

Mae sefydlu trefn ddarllen yn helpu plentyn ifanc i ddeall ei ddiwrnod a gwybod beth i'w ddisgwyl o'i amgylchedd, ac mae'n gallu helpu i wneud i blentyn deimlo'n fwy hyderus a diogel. Mae hyn yn gallu cefnogi hunan-barch a llesiant.

Mae rhannu llyfr neu stori yn y nos yn ffordd ddelfrydol o setlo plentyn. Pan edrychwyd ar Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Dechrau Da yn 2010, gwelwyd bod llawer o rieni'n dweud bod darllen gyda'u plentyn yn cael effaith leddfol.

Mae rhannu darllen yn gallu cynyddu'r amser o ansawdd y mae plentyn a rhieni/gofalwyr yn ei dreulio gyda'i gilydd.

Mae straeon a siarad am lyfrau'n gallu helpu i ddatblygu empathi ac mae'n annog plant i gydnabod eu teimladau a theimladau pobl eraill, a siarad amdanyn nhw.

## Datblygiad Gwybyddol

Mae eistedd yn dawel gyda'ch gilydd yn cefnogi gwrando, canolbwyntio a rhoi sylw.

Fe fydd babis a phlant yn dechrau rhagweld eu hoff ddarluniad/cymeriad/rhan o'r stori ac fe fyddan nhw'n defnyddio'u cof i gofio beth sy'n digwydd nesaf.

Mae siarad am lyfr, edrych ar luniau, cymeriadau a rhediad stori'n gallu cefnogi dychymyg a meddwl plentyn bach.

Mae cael straeon yn helpu i gyfoethogi'r dychymyg ac mae'n rhoi gwybodaeth am amrywiaeth o brofiadau y mae plant yn gallu tynnu arnyn nhw i roi hyder iddyn nhw.

Mae straeon yn gallu rhoi fframwaith i blant y gallan nhw ddehongli ymddygiadau oddi mewn iddo a rhoi ystyr iddyn nhw.

Mae darparu amgylchedd dysgu cyfeillgar yn y cartref yn helpu plant i roi'r byd o'u hamgylch ar brawf a dysgu amdano, ac i ddatblygu a chynnal sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd cryf.

## Datblygiad Ieithyddol

Mae annog rhieni a gofalwyr i rannu llyfrau, straeon a rhigymau'n gallu gwella sgiliau iaith a chyfathrebu plentyn.

Mae defnyddio lleisiau doniol a synau anifeiliaid yn dod â stori yn fyw ac mae'n helpu plant i ddod i adnabod geiriau o'u sŵn o oedran cynnar.

Mae clywed stori'n cael ei darllen yn uchel, dysgu caneuon a hwiangerddi'n gallu annog plant i gael geirfa dda.

Mae rhannu darllen yn gallu annog cymryd eich tro a datblygu sgiliau gwrando.

## Datblygiad Corfforol

Mae rhannu llyfrau o enedigaeth yn cefnogi datblygiad cydsymudiad corfforol trwy droi tudalennau, codi fflapiau a phwyntio bys at ddelweddau.

Mae babis yn hoffi archwilio llyfrau'n gorfforol gan ddefnyddio a datblygu eu sgiliau synhwyraidd-ymudol trwy sugno, patio, anwesu neu grafu llyfrau. Mae sgiliau trin a thrafod yn datblygu'n gyflym trwy flwyddyn gyntaf babi.





Rhan 3

# Archwilio cynnwys pecyn Dechrau Da Babi

Yn para: 20 munud

1. Dosbarthwch y pecynnau corfforol ymysg eich grŵp a rhoi 5 munud iddyn nhw edrych ar y cynnwys a thrafod sut y bydden nhw'n gallu eu defnyddio yn ystod eu hymweliadau, a'r hyn y bydden nhw'n gallu ei ddweud.

   Ystyriwch y manteision datblygiadol rydych chi eisoes wedi'u trafod â'r grŵp. Cwestiynau i ysgogi trafodaeth:

   - Beth maen nhw'n ei sylwi am y llyfrau?
   - Pam y byddai rhigymau'n bwysig yn yr oedran hwn?
   - Sut allen nhw ddefnyddio'r deunydd sy'n rhoi canllawiau yn y pecyn?
   - Beth allai'r Gwasanaeth Llyfrgell ei gynnig i rieni newydd?

2. Cyflwynwch sleidiau **PowerPoint Dechrau Da Babi Sleidiau 6–14**. Mae'r sleidiau'n disgrifio cynnwys y pecyn ac yn cynnwys y negeseuon allweddol y dylid eu defnyddio wrth wneud rhodd o'r pecynnau.

3. Dylid pwysleisio bod Dechrau Da yn fwy na phecyn ffisegol, a bod y ffordd y gwneir rhodd ohono a'r canllawiau y mae'r Ymwelydd Iechyd yn eu rhoi i rieni a gofalwyr yr un mor bwysig â chynnwys y pecynnau o ran cefnogi teuluoedd i sefydlu trefn ddarllen gynnar.

4. Fideo – gwyliwch y fideo 'dangos a dweud' Babi i Ymwelwyr Iechyd (3 munud) [Cliciwch yma]

5. Gofynnwch i'r grŵp ystyried ffyrdd posibl i ddefnyddio'r pecyn Babi i:

   - Ddechrau trafodaeth ynglŷn â threfn bob dydd
   - Annog rhieni sydd o bosibl â sgiliau llythrennedd isel
   - Mesur camau datblygiad



Rhan 4

# Archwilio Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

Yn para: 20 munud

Yn yr adran hon, fe fyddwch chi'n edrych ar gynnwys pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar ac yn esbonio pam fod pob rhan o'r pecyn yn bwysig a sut y dylid gwneud rhodd ohono er mwyn rhoi'r gefnogaeth orau i blantos bach a'u rhieni/gofalwyr.

1. **Dosbarthwch** y pecynnau corfforol ymysg eich grŵp a rhoi 5 munud iddyn nhw edrych ar y cynnwys a thrafod sut y bydden nhw'n gallu eu defnyddio yn ystod eu hymweliadau, a'r hyn y bydden nhw'n gallu ei ddweud.

   Cwestiynau i ysgogi trafodaeth:

   – Sut fyddech chi'n cyflwyno'r pecyn yn wahanol y tro hwn?
   – Sut mae'r bag a'r cynnwys yn wahanol i'r pecyn Babi?
   – Beth maen nhw'n ei sylwi am y llyfrau?
   – Sut allen nhw ddefnyddio'r adnoddau yn eu hamserlen asesu twf?

2. Y nod yw gwneud rhodd o **becynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar** pan mae plant yn 27 mis oed. Mae'r broses o wneud rhodd o'r pecyn hwn yn wahanol oherwydd oedran y plentyn a'i ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd.

   Cwestiynau i ysgogi trafodaeth:

   – Pa ymddygiadau ydych chi'n disgwyl eu gweld gan blentyn o'r oedran yma?
   – Sut mae'r myfyrwyr yn disgwyl i'r cynnwys yn y pecyn fod yn wahanol i'r pecyn Babi?
   – Beth y mae ymwelwyr iechyd yn disgwyl ei weld o blentyn pan mae'n 27 mis oed o ran datblygiad cymdeithasol-emosiynol, gwybyddol, ieithyddol a chorfforol?

3. Cyflwynwch **Powerpoint Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar Sleidiau 15-25**.

   Mae'r sleidiau'n disgrifio cynnwys y pecyn ac yn cynnwys y negeseuon allweddol y dylid eu defnyddio wrth wneud rhodd o'r pecynnau.

4. **Gwyliwch fideo 'dangos a dweud' y Blynyddoedd Cynnar i Ymwelwyr Iechyd** (tri munud) Cliciwch yma.

5. Trafodwch y canllawiau ar wneud rhodd o'r pecyn a gofyn i'r myfyrwyr benderfynu beth yn eu barn nhw sydd bwysicaf, neu sut y bydden nhw'n blaenoriaethu eu negeseuon ar sail amgylchiadau teuluol gwahanol.

6. Pryd yn ystod yr ymweliad ydy hi orau i wneud rhodd o'r pecynnau?

   Fe allai hyn fod ar y dechrau fel bod yr Ymwelydd Iechyd yn gallu sylwi ar sut y mae'r plentyn a'r oedolyn yn rhyngweithio â'r llyfr a pha sgiliau ieithyddol ac echddygol sy'n bodoli. Mae rhai Ymwelwyr Iechyd yn gwneud rhodd ohonyn nhw ar ddiwedd yr ymweliad fel gwobr, fel nad yw'n tynnu sylw rhywun yn ystod asesiad.

# Rhan 5

## Quick quiz

Test your knowledge of Bookstart in Wales.

**Click here**

Rhan 6

# Gweithgaredd dynwared arfer

Yn para: 30 munud

Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr roi cynnig ar wneud rhodd o becyn Dechrau Da, gan ystyried y negeseuon y byddan nhw'n eu defnyddio a sut y byddan nhw'n gwneud rhodd o'r pecyn fel gweithgaredd dynwared arfer.

1. Gofynnwch i'r myfyrwyr fynd i grwpiau o 3 a phenderfynu pwy ydy A, B a C.
2. Yn y rownd gyntaf, A ydy'r rhiant neu'r gofalwr, B ydy'r Ymwelydd Iechyd a C ydy'r sylwedydd sydd hefyd yn cadw llygad ar yr amser. Fe ddylai'r sylwedydd fod â'r dalenni i fyfyrwyr, sef **'Pecyn Dechrau Da Babi'** a **'Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar'** wrth law fel ei fod yn gallu gweld y pwyntiau y dylai'r Ymwelydd Iechyd roi sylw iddyn nhw.
3. Gall myfyrwyr ddewis un o'r senarios a ganlyn:
   - oedran y babi – gallai fod yn 6 mis oed neu'n 27 mis oed, neu'n agos at yr oedrannau hyn
   - mam yn ei harddegau sy'n byw ar ei phen ei hun heb unrhyw gefnogaeth ehangach gan ei theulu
   - mam sydd ddim yn siarad Cymraeg, ond y mae ei gŵr a'i deulu'n siarad Cymraeg gartref ac â'r plant
   - rhiant sy'n athro/athrawes ysgol uwchradd a dyma'i blentyn/ei phlentyn cyntaf
   - gofalwr o deulu ag anghenion cymhleth
   - gofalwr sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel mamiaith
   - mam rydych chi'n amau sydd ddim yn gallu darllen yn dda iawn
   - rhiant â phlentyn sydd â thri o frodyr a chwiorydd hŷn
   - neu gallwch chi greu'ch enghraifft eich hun
4. Dylai myfyrwyr gymryd rhyw bum munud i gynllunio'u gweithgaredd dynwared.

   Gofynnwch iddyn nhw ystyried:

   - beth fyddwch chi'n ei ddweud, sut fyddwch chi'n ei ddweud, sut fyddech chi'n ymddwyn o amgylch y plentyn a'r rhiant, sut fydd y rhiant/gofalwr yn teimlo?
5. Dylai'r myfyrwyr 'actio' y weithred o wneud rhodd o'r pecyn gan ddefnyddio naill ai'r pecyn Babi neu'r pecyn Blynyddoedd Cynnar.
6. Amser i fyfyrio

   Rhai cwestiynau i fyfyrio yn eu cylch:

   - A wnaeth yr ymwelydd iechyd ddweud popeth roedd eisiau ei ddweud?
   - Wnaethon nhw roi sylw i 3 neges allweddol a oedd yn briodol i'r pecyn roedden nhw'n gwneud rhodd ohono? Pa mor briodol oedd eu hiaith a'u tôn?
   - Sut fyddech chi'n gwneud pethau'n wahanol y tro nesaf?

Cytunwch ar beth rydych chi wedi'i ddysgu a rhoi adborth i'r grŵp. Os oes yna amser, newidiwch rolau a rhoi cynnig arall arni.

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

## Rhan 7

# Cydweithio

Yn para: 15 munud

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y mae BookTrust Cymru, Gwasanaethau Llyfrgell ac Ymwelwyr Iechyd yn cydweithio i ddosbarthu pecynnau Dechrau Da i deuluoedd ledled Cymru.

1. Defnyddiwch sleidiau Powerpoint rhifau **PowerPoint Sleid 28**.

2. Pwysleisiwch rôl yr Ymwelydd Iechyd wrth fynd â phecynnau i deuluoedd

3. Esboniwch y dylai Ymwelwyr Iechyd weithio gyda'u Hymwelydd Iechyd arweiniol Dechrau Da a'u Cydlynydd Dechrau Da i sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o becynnau ar gael i'w cyflwyno i'r teuluoedd y maen nhw'n gweithio gyda nhw

4. Gwasanaeth Llyfrell
   - Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n aelodau o'u llyfrgell leol ac a ydyn nhw'n gwybod pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar gyfer teuluoedd yn eu hardal.
   - Trafodwch sut y mae llyfrgelloedd yn cynnig digwyddiadau amser rhigwm ac amser stori i deuluoedd fynd iddyn nhw yn rhad ac am ddim i gymdeithasu gyda rhieni/gofalwyr a phlant eraill.

5. Trafodwch sut y mae Llyfrgelloedd yn cefnogi gwaith Ymwelwyr Iechyd.
   - gwyliwch fideo'r Gwasanaeth Llyfrgell yma (5 munud) Cliciwch yma
   - trafodwch y prif bwyntiau a godwyd yn y fideo
   - mae ymchwil wedi dangos bod sesiynau amser rhigwm o fudd i rieni yn ogystal â phlant – gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y ffyrdd y gallai llyfrgelloedd gefnogi teuluoedd â phlant bach
   - anogwch yr Ymwelwyr Iechyd i fynd draw i'r llyfrgell a dysgu am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i deuluoedd fel eu bod nhw'n gallu rhannu'r wybodaeth hon wrth wneud eu gwaith



BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen